

Astudiaeth Achos 1

Cwrddais â gwraig a chydabod y gallai elwa o wasanaethau cefnogaeth yn y gymuned. Argymhellais y Ganolfan i Ferched ac fe ddywedais y byddwn yn cyfarfod â hi am banded, gan mai dyma'r tro cyntaf iddi fynychu grŵp. Argymhellais hefyd iddi fynd ar wefan Dewis i weld a oedd yna unrhyw grwpiau cymunedol eraill yr hoffai eu mynychu, ac fe adawais y cyfeiriad gwe ar ei chyfer.

Ffoniais hi yn y bore i weld a oedd hi wedi penderfynu. Dywedodd ei bod wedi bod ar wefan Dewis a rhestrodd yr holl glybiau roedd ganddi ddi-ddordeb mynd iddynt. Dywedodd ei fod yn adnodd gwych. Ar ôl hynny, fe wnes i ei chyfarfod yn y Ganolfan i Ferched a siarad drwy'r wybodaeth roedd wedi'i chanfod, a dywedodd ei bod am ddechrau gwneud ymholiadau i gael mynd i'r gweithgareddau.

Dywedodd hefyd fod y gwasanaeth cyfan yn wych a diolchodd i mi am fod mor gefnogol a'i helpu i gael gafael ar wahanol weithgareddau. Dywedodd ei bod wir wedi mwynhau siarad efo fi. Dywedodd nad oedd gwasanaeth fel hyn yn bodoli yn lle roedd hi'n arfer byw, doedd hi ddim yn credu bod rhywbeth fel hyn yn bodoli ac roedd o'r union beth roedd hi ei angen.

Astudiaeth Achos 2

Daeth dynes oedrannus a'i mab i'm gweld yn y Pwynt Siarad ac roedd eisiau cymorth i ddod o hyd i drafnidiaeth, grwpiau cymunedol ac ati yn ei hardal leol, wledig. Yn 87 oed, roedd y ddynes a'i gŵr yn dal i fyw'n annibynnol ond bellach yn cael trafferth ymdopi wrth symud. Mae hyn yn gwneud i'r cwpl deimlo'n unig a theimlo nad ydynt yn gallu ymdopi'n annibynnol.

Drwy fynd i Bwyntiau Siarad, roedd y ddynes yn gallu siarad ag ymarferydd gofal cymdeithasol, a oedd yn gallu rhoi cyngor iddynt a chyfeirio'r cwpl at gymorth symud addas, a'u helpu i wneud cais bathodyn glas. Roedd y ddynes hefyd yn cael cyfle i drafod ei lles gyda'i llywiwr cymunedol.

O ganlyniad i'r sgwrs anffurfiol hon, roedd y llywiwr cymunedol yn gallu deall beth oedd yn bwysig i'r cwpl. Archwiliodd y llywiwr cymunedol opsiynau cludiant cymunedol gyda'r cwpl, a rhoi'r ddynes mewn cysylltiad â'i Sefydliad y Merched Lleol. Fe wnaeth y llywiwr cymunedol hefyd egluro y gallai gŵr y ddynes (fel cyn-filwr) gael ei gyfeirio at y Lleng Brydeinig Frenhinol os oedd yn dymuno hynny. Nid oedd y cwpl wedi clywed am hyn ac roeddent yn ddiolchgar am yr atgyfeiriad. Roedd y cwpl hefyd yn gallu cael gwybodaeth am arddwyr, crefftwyr a glanhawyr lleol.

Roedd y cwpl yn teimlo bod y gwasanaeth a roddwyd drwy Pwyntiau Siarad yn "hyfryd ac yn wych".

Astudiaeth Achos 3

Cwrddais â Mr X mewn Grŵp Cymysgu Cymdeithasol i bobl hŷn a oedd yn dioddef o bob math o Dementia. Roeddwn wedi cael gwahoddiad i fynd yno i sgwrsio â phawb am fy rôl. Cymerodd Mr X fy ngherdyn.

Yr wythnos ganlynol mewn Pwynt Siarad daeth Mr a Mrs X a'u mab a'u merch yng nghyfraith draw i'm gweld. Dywedodd Mr X wrthyf ei fod yn dioddef o glefyd Parkinson gyda chyrrff Lewy (elfen o Dementia) ac roedd am gael help i fynd allan yn amlach a rhoi seibiant i'w wraig (roedd hi wedi bod yn yr ysbyty gydag Anemia yr wythnos flaenorol). Mae Mr a Mrs X yn 86 oed.

Canfyddais ei fod wedi bod yn y Llynges felly cytunom y byddwn yn ei atgyfeirio i dderbyn cefnogaeth *Change Step* i gyn-filwyr. Cytunodd hefyd i gael help gan Gymdeithas Alzheimer's sydd hefyd yn helpu pobl sy'n dioddef o Gyrff Lewy.

Cawsom sgwrs hir am fywyd y cartref a'r hyn yr hoffai ei wneud. Cytunwyd y byddwn yn galw heibio'r wythnos ganlynol am sgwrs yn y cartref gyda'r teulu cyfan i weld sut y dylai Mr X symud ymlaen.

Ymwelais â Mr X yn ei gartref yr wythnos ganlynol, buom yn trafod grwpiau yn yr ardal a chytunodd Mr a Mrs X gwrdd â mi mewn bore coffi yr wythnos ganlynol a gynhelir fel arfer yn yr eglwys nepell o'u cartref unwaith y mis. Rhoddais fanylion grŵp crefft a gynhelir bob dydd Llun mewn lleoliad ger eu cartref (roedd Mr X yn hoffi peintio a thynnu llun pan oedd yn iau). Cytunodd Mrs X gael ei hatgyfeirio i gael cefnogaeth Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd-ddwyrain Cymru (NEWCIS). Awgrymais hefyd eu bod yn cael ymweliad gan fy nghydweithiwr o'r tîm Curo'r Oerni i wirio eu tariffau tanwydd. Cytunodd y ddau a gwnaethpwyd atgyfeiriad y diwrnod hwnnw.

Yr wythnos ganlynol cwrddais a'r cwpl yn y bore coffi a oedd yn lle hyfryd ac roedd mwyafrif y bobl yno yn adnabod Mr a Mrs X gan fod y ddau wedi gwneud llawer o waith cymunedol / elusennol pan oeddent yn iau. Cawsant groeso gan y dynion a'r merched a oedd yn bresennol ac fe adawais iddyn nhw fwynhau'r cwmni. Cyn mynd, dywedodd Mr X wrthyf ei fod wedi mynd draw i'r grŵp crefft ar ddydd Llun a'i fod wedi mwynhau yn fawr. Roedd wedi penderfynu mynychu bob wythnos. Dywedodd Mrs X hefyd ei bod wedi cael ymweliad gan ddyn hyfryd o Gymdeithas Alzheimer's ac roedd yn eu helpu â llawer o bethau. Yn olaf, sgwrsiais ag un o yrwyr gwirfoddol y cyngor a oedd wedi cynnig mynd â Mr X i grŵp cymdeithasol arall bob dydd Mercher.

Rwyf mewn cysylltiad â mab Mr X yn rheolaidd dros e-bost ac mae'n dweud eu bod yn ddiolchgar iawn am y gwasanaeth yr wyf wedi'i ddarparu, "mae cael un person i drefnu popeth yn anhygoel" meddai. Mae ei wraig yn Weithiwr Cymdeithasol sydd wedi ymddeol a dywedodd wrthyf fod y Gwasanaeth Llyw-wyr Cymunedol yn wych a'i fod wedi gwneud gwahaniaeth go iawn i'w bywydau i gyd.